

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu (Dirybudd)

**Pinetree Court, Grŵp Gofal
Iechyd Ludlow Street,
Wards Larch a Juniper**

9 – 11 Rhagfyr 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	5
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau	7
	Safonau Craidd	7
	Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl.....	13
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	14
6.	Y Camau Nesaf.....	15
	Atodiad A.....	16

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth ar ran Gweinidogion Cymru, sydd wedi'u penodi'n awdurdod cofrestru dros Gymru trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a gynigir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath yn:

- ddiogel
- derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn potensial
- gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio
- Cyfweiliadau gydag uwch staff gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaeth
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried gweithrediad Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeirio Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Trosolwg o brosesau storio, rhoi, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyriaeth o ansawdd bwyd
- Gweithrediad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n gwneud darpariaeth o ran asesu, cynllunio gofal a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad iechyd meddwl ac anabledd dysgu dirybudd ag Ysbyty Pinetree Court, Caerdydd, gyda'r nos ar 9 Rhagfyr a thrwy'r dydd ar 10 ac 11 Rhagfyr 2014.

Cofrestrwyd Pinetree Court gydag AGIC yn gyntaf ym mis Tachwedd 2007, ac mae wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu llety i 29 o gleifion o fewn tair uned ar wahân. Uned ar gyfer dynion gyda 12 gwely yw Ward Larch, uned ar gyfer merched gydag 14 gwely yw Ward Juniper, ac uned tri gwely yw Cedar Lodge. Mae Pinetree Court yn darparu gwasanaeth adsefydlu i bobl sydd wedi cael prif ddiagnosis o anabledd dysgu neu anhwylder ar y sbectrwm awtistig, ac a allai gael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Yn ystod yr arolygiad tri diwrnod, gwnaethom adolygu dwy ward, gan adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, un adolygydd lleyg, a dau aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Roedd ein harolygiad o Ysbyty Pinetree Court ym mis Rhagfyr 2014 yn ymweliad cadarnhaol, a nodwyd bod nifer o feysydd o arfer nodedig yn cael eu gweithredu. Nodwyd ei fod wedi'i addurno'n gyffredinol i safon dda, a gwelwyd bod gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud yn rheolaidd ar y safle. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad ar y noson gyntaf, datgelwyd bod y toiledau'n fudr ac wedi'u staenio yn ward y dynion, a gwnaeth cleifion sylwadau ynglŷn â glendid y toiledau weithiau. Nid oedd dalwyr papur tŷ bach, peiriannau sebon na hysbysfyrddau yn y wardiau a ymwelwyd oherwydd digwyddiadau diweddar. Fodd bynnag, roeddem yn falch o weld yr ysbyty'n gweithredu'n gyflym i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Ystyriwyd bod y gweithdrefnau oedd wedi'u sefydlu ar gyfer recriwtio staff newydd yn llym, ac roedd hyn yn golygu bod y staff nyrsio a'r staff cymorth o safon uchel. O ganlyniad, dywedodd y staff fod gwaith tîm da yn digwydd ym mhob ward. Yn ogystal, roedd cyfleoedd hyfforddi da ar gael i'r staff, ac roedd yr ystadegau ar gyfer hyfforddiant gorfodol yn gadarnhaol, gan ddangos canran uchel o gydymffurfio o fewn yr ysbyty.

Roedd y cyfathrebu a'r cysylltiadau wedi datblygu'n dda trwy gydol yr ysbyty, a dywedodd y staff fod yna amgylchedd democrataidd lle roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu safbwyntiau'n cael eu parchu.

Nodwyd bod yr amrywiaeth o weithgareddau a'u perthnasedd i gleifion unigol yn arfer da. Roedd cofnodion gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddarluniadol dda yr ystyriwyd ei bod yn nodedig.

Roedd gwasanaeth meddyg teulu a gwasanaeth trin traed ar gael i gleifion yn rheolaidd, a gwnaeth y cleifion a'r staff sylwadau canmoliaethus amdanynt.

Roedd y cleifion yn cymryd rhan wrth baratoi prydau bwyd i gleifion eraill, gyda'r prif gogydd yn eu goruchwyllo, ac mae hynny i'w ganmol. Fodd bynnag, roedd y profiad bwyta a welwyd yn ystod ein hymweliad yn siomedig, ac nid oedd yn arwain at brofiad cadarnhaol, yn bennaf oherwydd y modd roedd bwyd yn cael ei weini i gleifion. Roedd y bwyd yn cael ei weini mewn papur ffoil ac wedi'i orchuddio â haenen lynu, a lle bo hynny'n berthnasol, nid oedd wedi'i weini ar blât. Dywedodd y cleifion a'r staff wrthym hefyd am yr anghysondebau o ran safon a chyflwyniad y bwyd pan nad oedd y prif gogydd ar ddyletswydd.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y Ward

Ward Juniper

Uned ar gyfer merched gyda 12 gwely sengl yw Ward Juniper, ac mae wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf. Mae cyfleusterau en-suite ar gael mewn dwy ystafell wely, a cheir sinc ym mhob un o'r deg ystafell wely arall gan rannu cyfleusterau toiled a chawod. Ar adeg ein hymweliad, roedd y dalwyr papur tŷ bach a'r peiriannau sebon i gyd wedi torri ac wedi'u tynnu o'r wal. O ganlyniad, roedd yn rhaid i'r cleifion ofyn i'r staff am bapur tŷ bach, ac nid oedd hyn yn dda i urddas y cleifion. Dywedwyd wrthym fod gweithwyr cynnal a chadw wedi cael eu hysbysu, ac yn ystod ein hymweliad, dywedwyd wrthym fod y materion hyn yn derbyn sylw.

Ar y llawr daear ar Ward Juniper, roedd nifer o ystafelloedd, gan gynnwys swyddfa'r nyrsys, ystafell dawel, cegin/ystafell fwyta, a lolfa'r cleifion. Roedd dau hysbysfwrdd ar gael, un yn y cyntedd a'r llall yn y lolfa. Roedd yr hysbysfwrddau'n llawn gwybodaeth am yr hyn oedd yn cael ei gynnal yn yr ardal leol, cyfarfodydd, gwybodaeth am ddietau a bwyta'n iach, yn ogystal â newyddion penodol am Pinetree. Roedd trydydd hysbysfwrdd wedi'i dynnu i lawr yn ddiweddar gan glaf yn y man bwyta. Dywedodd y staff wrthym fod y gweithwyr cynnal a chadw wedi cael eu hysbysu, ac y byddai hysbysfwrdd newydd yn cael ei osod yn ei le.

Dim ond deg cadair oedd ar gael yn y man bwyta. Fe'n hysbyswyd bod y nifer hyn o gadeiriau'n ddigon oherwydd bod dau sesiwn amser bwyd. Roedd lle ar gael y tu allan i'r cleifion, a darparwyd cyfleusterau ar gyfer y cleifion hynny oedd yn ysmegu.

Roedd y ward wedi'i haddurno'n ddigonol drwyddi draw, ar wahân i'r man o amgylch y dalwyr papur tŷ bach a'r peiriannau sebon. Roedd y ward yn lân o ran golwg, ac roedd yr offer a'r dodrefn wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, ac mewn cyflwr da.

Ward Larch

Uned ar gyfer dynion yw Ward Larch, sy'n darparu 14 ystafell wely sengl. Roedd y dalwyr papur tŷ bach a'r peiriannau sebon ar y ward hon wedi'u tynnu oddi ar y waliau hefyd. Roedd y toiledau ar adeg ein hymweliad yn fudr ac wedi'u staenio.

Roedd y lolfra wedi'i haddurno'n dda, ac roedd y dodrefn wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yr offer ar y ward mewn cyflwr da, ac roedd cyfrifiadur ar gael i'r cleifion yn yr ystafell wydr.

Roedd yr hysbysfyrddau'n weladwy, ac roedd gwybodaeth wedi'i harddangos am glinig iechyd dynion, cofnodion cyfarfodydd, a chynigion am gymorth yn dilyn digwyddiadau.

Roedd man y tu allan ar gael i'r cleifion, ac er nad oedd yn fawr, roedd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Roedd manau ysmegu penodol ar gael y tu allan hefyd ar gyfer y cleifion hynny oedd yn gofyn am y dewis hwn.

Gwelwyd bod eiddo un claf yn cael ei gadw yn yr ystafell gawod. Gan fod y claf wedi gadael yn ystod yr haf, nid oeddem yn sicr pam fod yr eiddo yn parhau i fod yn y safle a pham nad oedd wedi'i gludo gyda'r claf pan oedd yn gadael.

Argymhelliad

Mae angen cael gosodiadau a ffitiadau newydd, gan gynnwys dalwyr papur tŷ bach, peiriannau sebon a hysbysfyrddau.

Mae angen adolygu glendid toiledau'r dynion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n lân at ddefnydd y cleifion.

Diogelwch

Nodwyd bod gan bob aelod o'r staff ar y wardiau larymau diogelwch a fyddai'n rhybuddio pobl eraill pe byddai argyfwng. Yn ogystal, roedd yr ystadegau a gyflwynwyd o ran hyfforddiant mewn ymyriad corfforol ar gyfer y staff yn amlygu cyfradd cydymffurfio o 100%, a chadarnhaodd y staff eu bod yn diweddarau'r hyfforddiant yn rheolaidd bob blwyddyn.

Yn ystod ein hymweliad, nodwyd bod y lefelau staffio yn briodol ar gyfer nifer y cleifion ar y wardiau, ac roedd hyn yn cynnwys yr aelodau staff hynny oedd yn arsylwi cleifion. Cadarnhaodd y staff nad oedd ganddynt unrhyw broblemau na phryderon ynglŷn â'r lefelau staffio yn yr ysbyty. Dywedodd rhai cleifion y gwnaethom siarad â nhw nad oedd gweithgareddau wedi'u hwyluso weithiau os oedd claf angen nysio un i un, neu os oedd aelod o staff yn absennol.

Y tîm amlddisgyblaeth

Gwnaeth pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol ynghylch gwaith y tîm amlddisgyblaeth. Dywedodd y staff y cynhelir cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth bob wythnos, ac y caiff yr holl

ddisgyblaethau eu cynrychioli, gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol, meddygon, nyrsys, a staff cymorth.

Dyweddod y staff wrthym y ceisir barn a safbwyntiau proffesiynol gan bob tîm disgyblaeth yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth, ac roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi gan ei gilydd.

Cynhelir cyfarfodydd yn yr ysbyty bob bore hefyd, a chaiff nodiadau eu trosglwyddo o'r sifft flaenorol i'r sifft nesaf yn ystod y cyfarfodydd hynny. Dywedodd y staff wrthym fod meddygon yn mynychu'r cyfarfod hwn, ac o ganlyniad, mae cydweithio da rhwng y proffesiynau.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion y siaradwyd â nhw o'r farn bod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu parchu yn Ysbyty Pinetree Court. Cadarnhaodd bron i bob claf y siaradwyd â nhw fod ganddynt nyrs benodedig a'u bod yn gallu siarad â nhw yn breifat am unrhyw broblemau.

Dyweddod cleifion wrthym eu bod yn cael gwneud galwadau ffôn yn breifat. Mae'r ysbyty yn caniatáu i gleifion ddefnyddio'r ffôn yn swyddfa'r nyrsys, ar gyfer cysylltu â chyfreithwyr ac eiriolwyr yn ystod y dydd, ac i gysylltu â theulu a ffrindiau ar ôl y pryd bwyd gyda'r nos. Mae cleifion yn cael defnyddio'r ystafell ymwelwyr i gyfarfod â theulu a ffrindiau yn breifat hefyd.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun, ac roeddent yn gallu cadw eu heiddo eu hunain. Ychydig iawn o gleifion oedd ag allweddi i'w hystafelloedd eu hunain, ac os oedd angen cael mynediad, byddai'r staff yn agor y drws. Dywedodd rhai o'r cleifion nad oedd y staff yn cnocio'n ddigon uchel ar ddrysau'r ystafelloedd gwely os oeddent eisiau dod i mewn, ac felly nododd y cleifion nad oedd eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu cynnal bob tro.

Dyweddod cleifion wrthym y byddai'n well ganddynt gael cyfleusterau cawod a thoiled en-suite yn hytrach na'r adnoddau a rennir, oherwydd nad oeddent bob amser yn cael eu gadael yn lân. Ar wardiau Juniper a Larch, bu'n rhaid i gleifion ofyn i'r staff am bapur tŷ bach, a chafodd hyn effaith ar urddas y cleifion.

Ar y cyfan, dywedodd cleifion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty.

Argymhelliad

Dylid sicrhau bod cyfleusterau angenrheidiol megis papur tŷ bach ar gael yn rhwydd mewn ystafelloedd ymolchi er mwyn osgoi'r sarhad o orfod gofyn am bapur tŷ bach.

Therapiau a gweithgareddau cleifion

Siaradodd y staff a'r cleifion yn gadarnhaol am yr amrywiaeth o weithgareddau a therapiau sydd ar gael. Roedd y gweithgareddau'n amrywiol iawn o ran y grwpiau a'r diddordebau a drefnwyd yn fewnol, gan gynnwys 'Paned gyda'ch Plismon', pan fo heddwad lleol yn ymweld â'r ysbyty ac yn sgwrsio â'r cleifion am faterion lleol, sesiynau pampro, a Siop Sebon. Yn ogystal, cynigiwyd nifer o weithgareddau wedi'u lleoli yn y gymuned, gan gynnwys nofio, bingo, mynd allan ar wibdeithiau, defnyddio'r gampfa leol, siopa, beicio, mynd i siop elusen, a gweithio gydag anifeiliaid yn fferm Walnut Tree.

Siaradodd y cleifion yn frwdfrydig am y cyfle i baratoi a gwneud bwyd i gleifion eraill, gyda'r prif gogydd yn eu goruchwylio. Roedd caffi Pinetree, sy'n cael ei redeg gan gleifion ar gyfer cleifion, yn weithgaredd arall roedd y defnyddwyr gwasanaeth yn ei fwynhau. Mae'r caffi ar agor ar nosweithiau penodol bob wythnos, ac mae'n galluogi cleifion gwrywaidd a benywaidd i gymdeithasu mewn amgylchedd caffi.

Roedd therapyddion galwedigaethol yn gweithio gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaeth newydd eu derbyn i ddarparu cynlluniau mwy personol. Defnyddir rhestr wirio diddordebau i ddal hoff a chas bethau unigolyn, ac mae'r wybodaeth hon o gymorth i greu amserlen benodol ar gyfer pob claf. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff y siaradwyd â nhw fod digon o weithgareddau ar gael i'r cleifion a bod amser yn cael ei neilltuo ar gyfer cynnal gweithgareddau cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod system wobrwyo wedi'i sefydlu, a bod cleifion yn casglu stampiau ar gyfer pob gweithgaredd maent wedi'i gwblhau. Gellir cyfnewid y stampiau a gasglwyd wedyn am wobrau, sy'n amrywio o fynd allan am fwyd, mynd i gemau pêl-droed, neu ar daith i'r theatr ar benwythnos.

Roedd y therapiau a gynigir i'r grŵp cleifion yn cynnwys clinig merched iach yn ogystal â chlinig dynion, clinigau iechyd bob yn ail wythnos, a hybu iechyd. Roedd meddyg teulu annibynnol yn ymweld bob wythnos, gan weld cleifion oedd wedi'u hatgyfeirio gan staff nyrsio.

Bwyd a maeth

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion a'r staff fod y bwyd yn dda, yn enwedig pan oedd y prif gogydd ar ddyletswydd. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion fod y bwyd a'r cyflwyniad yn wael os nad oedd y prif gogydd ar ddyletswydd.

Defnyddir dietegydd i oruchwylio newidiadau a dewisiadau o ran y fwydlen. Mae bwydlenni blasu ar gael i gleifion pan gynigir prydau bwyd newydd, er mwyn cael eu barn. Dywedodd y staff fod y maint dogn yn ddigonol a bod ansawdd y bwyd a weinir yn dda. Mae ffrwythau ar gael drwy'r dydd i'r cleifion, ac mae ganddynt eu cypyrddau eu hunain i gadw byrbrydau.

Roedd rhai o'r cleifion yn cwyno am y bwyd, gan ddweud nad oedd yn flasus, ac roedd rhai o'r cleifion yn hynod siomedig bod cyn lleied o cola'n cael ei ddarparu i'w yfed. Roedd hyn er mwyn annog dewisiadau mwy iach ac er mwyn cynorthwyo gyda rheoli pwysau.

Nid oedd ein harsylwadau ar brofiad bwyta'r cleifion yn ystod ein hymweliad yn dda. Gwelwyd bagets yn cael eu gweini i gleifion ar y ddwy ward, yn eu papur ffoil o hyd ac nid ar blât. Rhoddwyd cawl i gleifion gyda'r seloffen yn parhau i fod ynghlwm, a thynnwyd bara i fynd gyda'r sbageti o baced a'i ollwng ar y bwrdd. Nid oedd yr arsylwadau hyn yn arwain at brofiad bwyta cadarnhaol.

Argymhelliad

Mae'n rhaid ystyried adolygu'r anghysondebau o ran safon a chyflwyniad y bwyd pan nad yw'r prif gogydd ar ddyletswydd, a rhoi sylw iddynt.

Mae angen adolygu'r profiad bwyta er mwyn sicrhau bod bwyd yn cael ei gyflwyno i gleifion yn briodol ac yn broffesiynol, gan gynnwys defnyddio llestri bwrdd addas i weini bwyd arnynt.

Hyfforddiant

Roedd yr ystadegau a ddarparwyd o ran hyfforddiant gorfodol yn dangos canran uchel o ran cyfradd cydymffurfio, gan gynnwys 100% ar gyfer cwblhau hyfforddiant hylendid bwyd a hyfforddiant mewn ymyriad corfforol. Mewn meysydd eraill, roedd y cyfraddau cydymffurfio'n amrywio rhwng 80% a 90%. Cadarnhaodd y staff fod y sefydliad yn defnyddio pecynnau e-ddysgu yn bennaf ar gyfer ei hyfforddiant, ond y defnyddir arddull ystafell ddosbarth ar gyfer meysydd penodol, gan gynnwys hyfforddiant meddyginiaeth a hyfforddiant cymorth cyntaf. Dywedodd y staff wrthym fod y darparwr cofrestredig yn gefnogol o ran hyfforddiant a datblygiad staff, gan gynnwys darparu cyfleoedd i fynychu hyfforddiant allanol.

Mae uwch nyrs staff yn cyflawni gwaith mentora'r ysbyty ar gyfer nyrsys sydd newydd gymhwyso, gan sicrhau bod eu portffolio o ran datblygiad nyrsio yn cael ei ddiweddarau, a bod pob hyfforddiant yn cael ei nodi fel tystiolaeth i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r swyddogaeth hon wedi sicrhau bod pob nyrs sydd newydd gymhwyso yn cael yr un fentoriaeth, ac felly mae hyn yn cyfrannu at y safonau uchel o ran staff nyrsio.

Roedd system oruchwylio wedi'i sefydlu ar gyfer yr holl staff. Cynhelir sesiynau goruchwylio bob pedair i wyth wythnos ar gyfartaledd, a dywedodd y staff fod y trafodaethau'n ystyrlon. Mae'r ysbyty yn cofnodi a logio dyddiadau'r goruchwylio diwethaf, ac mae hyn yn galluogi'r sefydliad i gadw trosolwg o'r broses hon a sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd.

Gwnaeth y staff sylwadau canmoliaethus ynglŷn â'r broses sefydlu, a dywedodd rhai o'r staff ei bod y gorau maent wedi'i chael erioed. Cynhelir hyfforddiant sefydlu pythefnos o hyd yn y brif swyddfa cyn i unrhyw aelod newydd o staff ddechrau yn yr ysbyty. Trefnir hyfforddiant gloywi bob blwyddyn hefyd ar gyfer yr holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys o ran polisïau, gweithdrefnau, a chyfathrebu corfforaethol.

O adolygu ffeiliau staff, gwelwyd na chynhelir archwiliadau rheolaidd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer staff presennol, ac mai yn 2010 y cafodd un aelod o staff archwiliad diwethaf. Yn ystod trafodaethau â'r staff ynglŷn â'r mater hwn, gwelwyd bod y sefydliad yn gwirio cydymffurfiaeth pan fo staff newydd yn cael eu recriwtio. Mae'r sefydliad wedi nodi y bydd yn ysgrifennu at y gweithwyr yn gofyn iddynt gadarnhau nad oes unrhyw newidiadau o ran eu statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Byddai AGIC yn argymhell y cynhelir archwiliadau ar staff yn rheolaidd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel arfer da, oherwydd ei fod yn rhoi sicrwydd annibynnol y byddai'n cynyddu gallu'r sefydliad i asesu gonestrwydd a chymeriad unigolion.

Gwnaethom adolygu cofrestr cwynion gan gleientiaid Ysbyty Pinetree Court, a nodi bod y gofrestr ar y cyfan wedi'i chwblhau'n drylwyr yn ôl pob golwg. Fodd bynnag, o fis Gorffennaf 2014 ymlaen, nid oedd y golofn canlyniad mor fanwl â'r hyn a ddarparwyd yn ystod y misoedd cyn hynny. Gwnaethom holi'r Unigolyn Cyfrifol am hyn ar y pryd, a chadarnhaodd y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn.

Ar adeg ein hymweliad, roedd rheolwr dros dro'r ysbyty wedi bod yn gweithio yn Ysbyty Pinetree Court ers mis Medi 2014. Nid yw AGIC wedi derbyn ffurflen gais hyd yn hyn. Cyfrifoldeb y darparwr cofrestredig yw hysbysu AGIC am reolwr newydd a chyflwyno'r ffurflen gais angenrheidiol. Mae'n ofynnol darparu ffurflen gais wedi'i chwblhau erbyn mis Mawrth 2015.

Argymhelliad

Mae'n ofynnol darparu diweddariad o ran y golofn canlyniad ar y gofrestr cwynion er mwyn cadarnhau pam bod diffyg manylion ar ôl mis Gorffennaf 2014.

Mae'n ofynnol darparu ffurflen gais rheolwr wedi'i chwblhau erbyn mis Mawrth 2015.

Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol chwech o'r cleifion oedd yn derbyn gofal ar ddwy o'r wardiau ar adeg ein hymweliad. Nodwyd y materion nodedig canlynol:

- Mae'r dogfennau statudol a adolygwyd gennym yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983.
- Roedd y ffeiliau dogfennau statudol ar y ddwy ward wedi'u cadw mewn trefn ragorol, a oedd yn galluogi cael gwybodaeth ac adolygu rhwydd.
- Roedd y Tîm Deddf Iechyd Meddwl yn cynnal archwiliadau ac yn monitro'n rheolaidd.

Roedd pedwar o'r cleifion wedi'u cadw dan Adran 3 y Ddeddf. Roedd yr holl ddogfennau statudol, ar gyfer pob claf unigol oedd wedi'i gadw, wedi cael eu cwblhau a'u cadw'n gywir ar ffeil, ar y dechrau ac yn barhaus. Yn ogystal, roedd pob un o adroddiadau'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy gyda'r gwaith papur cadw cleifion.

Roedd dau glaf wedi'u cadw dan Ran 3 y Ddeddf, Cleifion sy'n gysylltiedig ag achos troseddol neu sydd dan ddedfryd. Roedd y dogfennau statudol ynglŷn â'u cadw ar gael yn eu ffeiliau. Fodd bynnag, ni anfonir asesiadau'r meddygon o'r cleifion o'r llysoedd, ac felly nid oeddent ar gael yn ffeiliau'r cleifion.

Roedd cofnod clir o hysbysu'r cleifion am eu hawliau dan Adran 132 ym mhob un o ffeiliau'r cleifion unigol. Roedd yn amlwg, pan oedd hynny'n berthnasol, bod cleifion wedi apelio yn erbyn cael eu cadw, naill ai i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl (Adran 65) neu i Wrandawriad Rheolwyr Ysbyty. Ar gyfer yr achosion lle'r oedd hyn wedi digwydd, roedd yn amlwg bod y penderfyniad wedi'i gyfleu i'r claf.

Roedd pob meddyginiaeth dan Adran 58 wedi'i hawdurdodi'n gywir. Roedd copïau o Dystysgrifau Cydsynio i Driniaeth wedi'u cadw gyda Siart Cofnod Rhoi Meddyginiaethau pob claf. Nodwyd gennym hefyd bod dalen yn nodi manylion alergeddau ar gael yn y ffeiliau meddyginiaeth.

Pan oedd cleifion wedi cael Caniatâd i fod yn Absennol dan Adran 17, roedd yr amodau wedi'u nodi'n glir ar y ffurflen ganiatâd ac wedi'u llofnodi gan Glinigydd Cyfrifol y claf.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth ar Ward Larch a nodi'r canlynol:

- Roedd y cynllun Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol ar gyfer claf ar ffurf lluniau, ac roedd yn fanwl iawn ac yn canolbwyntio ar y claf.
- Ysgrifennwyd y cynllun Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol ym mis Mehefin 2014. Fodd bynnag, roedd y CB5 hunan-niwed yn parhau i gael ei asesu. Nid oedd unrhyw sbardunau araf/cyflym ar gyfer ymddygiadau a chynnal swyddogaethau.
- Roedd ffurflen absenoldeb Adran 17 wedi cael ei chwblhau'n gynhwysfawr.
- Roedd digon o fanylder mewn adroddiadau arsylwi ar seicoleg ac ymddygiad.

Soniodd cleifion a staff am y ffaith i'r gwasanaeth Materion Eiriolaeth gael ei dynnu yn ôl yn ddiweddar oherwydd cyllid (nid problem cyllid gyda'r ysbyty). Roedd y gwasanaeth yn boblogaidd iawn gyda chleifion, ac roedd yr eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty'n rheolaidd ac yn datblygu perthnasau cadarnhaol gyda chleifion. Mae gwasanaeth eiriolaeth arall ar waith yn awr, ond rhaid i gleifion ffonio a gwneud apwyntiad i drafod problemau.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Ysbyty Pinetree Court gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Pinetree Court yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl/ Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Darparwr: Grŵp Gofal Iechyd Ludlow Street

Ysbyty: Pinetree Court

Date of Inspection: 9, 10 ac 11 Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu Pinetree Court	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Mae angen cael gosodiadau a ffitiadau newydd, gan gynnwys dalwyr papur toiled, peiriannau sebon a hysbysfyrddau.	15(1) & (2) 26 (2)(b)	<p>Mae'r holl osodiadau a ffitiadau yn cael eu hailosod yn rheolaidd, wrth iddynt gael eu difrodi.</p> <p>Mae gwaith yn parhau i ganfod eitemau a fydd yn gwrthsefyll ymosodiadau ar y cyd arnynt.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae un cleient gwrywaidd a dau gleient benywaidd yn difrodi'r rhain yn rheolaidd. Mae gwaith clinigol yn parhau i ddigwydd gyda'r unigolion hyn er mwyn cynorthwyo i wella'r ymddygiadau hyn.</p>	S. James	Diwedd Mis Mawrth 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu Pinetree Court	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Mae angen adolygu glendid toiledau'r dynion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n lân at ddefnydd y cleifion.	26(2)(a)	Mae'r holl fannau toiled yn cael eu harchwilio a'u glanhau'n rheolaidd gan y tîm cadw tŷ. Pan nad yw'r tîm cadw tŷ ar ddyletswydd, caiff hyn ei wneud gan y staff gofal. Atgoffwyd yr holl staff i fod yn wylidwrus dros ben yn y sefyllfa hon.	S. James J. Nolloth C. Wilson	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
	Dylid sicrhau bod cyfleusterau angenrheidiol megis papur toiled ar gael yn rhwydd mewn ystafelloedd ymolchi er mwyn osgoi'r sarhad o orfod gofyn am bapur toiled.	18(1)(a)	Mae pob cleient yn cael ei asesu o ran risg er mwyn gallu derbyn allwedd i gyfleusterau toiled. Mae hyn er mwyn caniatáu i'r rhai nad ydynt yn achosi difrod pwrpasol i ddalwyr papur toiled a pheiriannau sebon gael mynediad at gyfleusterau lle gellir gwarantu darpariaeth o'r fath. Hefyd, bydd cleientiaid yn cael cyflenwad personol yn eu hystafelloedd yn amodol ar asesiad risg.	Tîm amlddisgyblaeth J. Nolloth C. Wilson	Diwedd mis Mawrth 2015 Cwblhawyd
	Mae'n rhaid ystyried adolygu'r anghysondebau o ran safon a chyflwyniad y bwyd pan nad yw'r prif gogydd ar ddyletswydd, a rhoi sylw iddynt.	15(9)(b)	Mae'r mater hwn yn cael sylw ar hyn o bryd gan y staff perthnasol. Bydd hyn yn arwain at safonau uchel cyson o ran ansawdd a chyflwyniad bwyd.	C. Kerlake M. Light Tîm Adnoddau Dynol	20 Mawrth 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu Pinetree Court	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Mae angen adolygu'r profiad bwyta er mwyn sicrhau bod bwyd yn cael ei gyflwyno i gleifion yn briodol ac yn broffesiynol, gan gynnwys defnyddio llestri bwrdd addas i weini bwyd arnynt.	15(1)(a)	Atgoffwyd holl staff y ward o'r safon ofynnol ar gyfer gweini bwyd i gleientiaid. Mae hyn wedi cael ei gywiro	S. James Holl staff	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
	Mae'n ofynnol darparu diweddariad o ran y golofn canlyniad ar y gofrestr cwynion er mwyn cadarnhau pam bod diffyg manylion ar ôl mis Gorffennaf 2014.	24(5)	Achoswyd hyn gan weinyddwr dros dro a ddefnyddiwyd ar gyfer mewnbynnu data o fis Gorffennaf tan fis Hydref. Er bod yr holl gwynion wedi eu datrys a'u cau, ni chafodd yr wybodaeth lafar ei chofnodi ar y pryd. Ble y bo'n bosib gwirio, mae hyn wedi cael ei ychwanegu at y data.	S. James S. Sharman	Cwblhawyd
	Mae'n ofynnol darparu ffurflen gais rheolwr wedi'i chwblhau erbyn mis Mawrth 2015.	11(1)(a); (2) (a) (b); (3)	Mae hon wedi'i chyflwyno.	S. James	Cwblhawyd